# Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Mehefin 2017
Petitions Committee | 13 June 2017

## Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil: Cymraeg gorfodol ar lefel TGAU

Rhif y ddeiseb: P-05-760

Teitl y ddeiseb: Atal TGAU Cymraeg Gorfodol

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ei pholisi a chaniatáu i blant roi'r gorau i Gymraeg lefel TGAU (Cyfnod Allweddol 4). Rhowch ddewis i blant drwy beidio â gwneud yr Iaith Gymraeg yn orfodol.

## Cefndir

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob disgybl 3-16 oed astudio Cymraeg, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Mae'r papur hwn yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yng nghyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil, *Addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc* (Awst 2016).

Yn sgil cyflwyno ***Deddf Diwygio Addysg 1988***, cyflwynwyd y Gymraeg yn raddol fel pwnc gorfodol ar gyfer disgyblion 5-14 oed (Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3) o 1990 ymlaen. O fis Medi 1999, gwnaed Cymraeg yn orfodol i ddisgyblion 14-16 oed hefyd (Cyfnod Allweddol 4). Mae'r Cyfnod Sylfaen, a gyflwynwyd yn 2001, yn ei gwneud yn ofynnol i Gymraeg neu Ddatblygu'r Gymraeg gael eu haddysgu i blant 3-7 oed.

### Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn cynnwys pynciau craidd a sylfaen. Maent wedi'u rhestru yn *Neddf Addysg 2002*.

Y **pynciau craidd** ar gyfer **Cyfnodau Allweddol 1-3** yw Mathemateg; Gwyddoniaeth; Saesneg; a **Chymraeg iaith gyntaf** (mewn perthynas ag ysgolion Cymraeg, fel y nodir yn *Neddf Addysg 2002*). Y pynciau sylfaen yw Technoleg; Addysg Gorfforol; Hanes; Daearyddiaeth; Celf; Cerddoriaeth; **Cymraeg ail iaith** (os nad yw'r ysgol yn ysgol Gymraeg, fel y nodir yn *Neddf Addysg 2002*); ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, Iaith dramor fodern.

Y **pynciau craidd** yng **Nghyfnod Allweddol 4** yw **Cymraeg iaith gyntaf**; Mathemateg; Saesneg a Gwyddoniaeth. Y **pynciau sylfaen** yw Addysg gorfforol; a **Chymraeg ail iaith.**

Nid oes unrhyw oriau penodedig ar gyfer pynciau penodol. Ysgolion yn lleol sy'n penderfynu faint o amser a ddyrennir i astudio pob pwnc, gan gynnwys Cymraeg.

### TGAU Cymraeg

Un o argymhellion adroddiad Llywodraeth Cymru *Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (2013) oedd bod Cymraeg ail iaith yn parhau i fod yn bwnc statudol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac yn parhau i fod yn bwnc gorfodol i bob disgybl yng Nghymru tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. **Argymhellodd** *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru – Dyfodol Llwyddiannus* (PDF 1.53MB) **gan yr Athro Donaldson y dylai Cymraeg barhau i fod yn orfodol ym mhob ysgol hyd at 16 oed**. Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis, fod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad mewn datganiad ysgrifenedig (ar 15 Hydref 2015).

Nodwyd yn *Un Iaith i Bawb*, er bod y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol, nid yw'n orfodol i gofrestru disgyblion i sefyll arholiad TGAU nac unrhyw gymhwyster arall. Ysgolion yn lleol sy'n penderfynu ar y cymhwyster priodol i'r dysgwyr eu dilyn. Yng Nghyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd, mae ysgolion yn cofrestru disgyblion naill ai ar gyfer **TGAU Cymraeg iaith gyntaf**, **TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn)**, TGAU Cymraeg ail iaith **(cwrs byr)**, neu ddim yn eu cofrestru ar gyfer unrhyw gymhwyster.

### TGAU Cymraeg ail iaith diwygiedig

Yn dilyn argymhellion *Un Iaith i Bawb*, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â CBAC, Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill, wedi datblygu **model diwygiedig ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith** (**cwrs llawn)** a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2017. Bydd y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl i'r cwrs llawn diwygiedig gael ei gyflwyno, gyda'r cyfle asesu olaf ar gyfer y cwrs byr yn haf 2018.

## Dadleuon o blaid Cymraeg fel pwnc ar lefel TGAU

### Parhad

Yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn dadlau bod angen parhad a dilyniant wrth ddysgu. Mae'n dweud **nad oes ganddi gynlluniau i newid polisi sefydledig Llywodraeth Cymru** sef bod Cymraeg yn bwnc gorfodol i rai 5-14 oed (Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) ac 14-16 oed (Cyfnod Allweddol 4). Mae **dilyniant ieithyddol** yn elfen allweddol o'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*:

> Mae datblygu sgiliau iaith yn broses sy'n digwydd dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig i blant a phobl ifanc adeiladu ar eu galluoedd wrth iddynt aeddfedu. Mae sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant ieithyddol addas yn un o gonglfeini'r Strategaeth.

## Rhan o'r diwylliant

Mae'r Gymraeg yn rhan o ddiwylliant Cymru. Yn natganiad polisi 2014 ynghylch ei strategaeth y Gymraeg, *Iaith fyw: Iaith byw – bwrw mlaen*, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Mae'r Gymraeg yn rhan werthfawr o'n hunaniaeth a'n diwylliant, ac mae'n bwysig bod holl ddysgwyr Cymru – p'un a ydynt yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg – yn cael cefnogaeth i siarad y Gymraeg yn hyderus.

## Galw gan y gweithlu am sgiliau Cymraeg

Mae'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg hefyd yn cyfeirio at y twf mewn galw am sgiliau Cymraeg gan y gweithlu a'r angen i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Un o chwe maes strategol **strategaeth y Gymraeg**, *Iaith fyw: iaith byw*, yw'r Gweithlu, a nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Yn natganiad polisi 2014, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd gweithredu Safonau'r Gymraeg:

> yn gatalydd pwysig ar gyfer gwella sut mae sefydliadau yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu.

## Manteision dwyieithrwydd

Mae llawer o sylw wedi'i roi i fanteision posibl dwyieithrwydd.

Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio at:

> fanteision uniongyrchol gallu defnyddio ieithoedd penodol (er enghraifft cyfathrebu ag aelodau'r teulu a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach, neu wella cyfleoedd gyrfa)

a'r

> manteision mwy cyffredinol o hyrwyddo sgiliau gwybyddol, cynyddu chwimder meddyliol ac ehangu'r amrywiaeth o brofiadau diwylliannol a gaiff siaradwyr.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cyfeirio at waith ymchwil yng Nghanada, sy'n datgelu bod dwyieithrwydd yn gwella gallu plant ac oedolion hŷn i ganolbwyntio ynghyd â'u rheolaeth wybyddol (PDF 128KB) ac yn dangos effaith dwyieithrwydd ar ohirio symptomau dementia rhag dechrau. Mae hefyd yn cyfeirio at waith ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caeredin yn 2009, a oedd yn dangos bod siaradwyr dwy iaith yn ei chael hi'n haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau, gan anwybyddu pethau a allai dorri ar eu traws.

## Rôl addysg o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae adroddiadau yn aml yn cydnabod rôl y sector addysg o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf*, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Nid oes unrhyw amheuaeth bod rôl hanfodol bwysig gan y system addysg i sicrhau dyfodol yr iaith. **Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi sicrhau'r cynnydd mwyaf** yn nifer y bobl ifanc sy'n rhugl eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae hefyd yn bwysig yng nghyd-destun targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a gafodd ei lansio ym mis Awst 2016. Cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu adroddiad ym mis Mai 2017 ar yr Ymchwiliad i Strategaeth y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru (627KB). Mae'r adroddiad yn pwysleisio **pwysigrwydd addysg o ran cyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg** ac yn croesawu'r newidiadau i TGAU Cymraeg ail iaith a gyflwynir o fis Medi 2017.

### Cyrhaeddiad

Er ei bod hi'n ymddangos bod y ddeiseb yn cyfeirio at TGAU Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gallai fod yn ddefnyddiol nodi bod data yn dangos nad yw astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar hyfedredd yn y Saesneg. Yn ôl y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:

> Nid yw'r broses o ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn annibynnol ar ei gilydd. Mae deilliannau dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn debyg mewn Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf, sy'n awgrymu bod y sector yn llwyddo i feithrin dwyieithrwydd naturiol. Dengys data asesu ar ddiwedd Blwyddyn 6 fod 98.5% o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd lefel yn y Saesneg yn 11 oed sydd yr un fath, neu'n dod o fewn un lefel â'u perfformiad yn y Gymraeg.

## Dadleuon yn erbyn Cymraeg fel pwnc ar lefel TGAU

### Cyfyngu ar ddewis

Gall TGAU Cymraeg gorfodol gyfyngu dysgwyr rhag dilyn pwnc arall yng Nghyfnod Allweddol 4, gan gyfyngu ar eu hopsiynau.

### Cyrhaeddiad

Yn ôl cais Rhyddid Gwybodaeth, fel yr adroddwyd gan y BBC yn 2014, awgrymwyd bod plant ysgol gynradd o gartrefi sy'n siarad Saesneg, ac sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig, yn llai tebygol o berfformio'n dda mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cymharwyd cyrhaeddiad 25,000 o ddisgyblion 11 oed.

### Barn y cyhoedd

Yn ôl arolwg barn ar gyfer ITV News yn 2015, yn seiliedig ar sampl o 1,151 o bobl, roedd bron i dwy ran o dair o bobl yn gwrthwynebu'r sefyllfa bresennol lle mae Cymraeg yn orfodol hyd at 16 oed.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.